**Bwrdd Cynghori Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân Cymru**

**1 Gorffennaf 2015, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Llandrindod**

**Cofnodion**

**Aelodau**

| | |
|---|---|
| Michael Prior (MP) | Cadeirydd Annibynnol |
| Cynghorydd Tudor Owen (TO) | Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| Cynghorydd Wynne Evans (WE) | Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Cynghorydd Sylvia Jones (SJ) | Awdurdod Tân ac Achub De Cymru |
| Adrian Hughes (AH) | Undeb Diffoddwyr Tân Wrth Gefn |
| Paul Scott (PS) | Cymdeithas y Swyddogion Tân |
| Huw Jakeway (HJ) | Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân |
| Cerith Griffiths (CG) | Undeb y Brigadau Tân |
| Grant Mayos (GM) | Undeb y Brigadau Tân, Aelod Cyngor Gweithredol dros Gymru |

**Ymddiheuriadau**

| | |
|---|---|
| Sean Starbuck (SS) | Undeb y Brigadau Tân |

**Swyddogion yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Dawn Docx (DD) | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| Liz Aitken (LA) | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Phil Haynes (PH) | Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru |

**Swyddogion Llywodraeth Cymru (ysgrifenyddiaeth)**

| | |
|---|---|
| Helen Griffiths (HG) | Cangen Gwasanaethau Tân |
| Cerys Myers (CM) | Cangen Gwasanaethau Tân |

**Eitem 1 yr Agenda – Croeso a Chyflwyniadau**

1. Croesawodd MP bawb i gyfarfod cyntaf y Bwrdd, gan egluro mai Cynlluniau Pensiwn Diffoddwyr Tân yw'r unig rai sydd wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru. Eglurodd MP ei fod wedi cael ei benodi gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus i ymgymryd â rôl Cadeirydd Annibynnol y Bwrdd, a'i fod yn edrych ymlaen at gyflawni’r rôl. Cydnabuwyd y swyddogion a oedd yn bresennol, er mwyn cynorthwyo aelodau o'r awdurdodau tân ac achub.

**Eitem 2 yr Agenda – Rheoliadau Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015**

2. Cyflwynodd HG Fwrdd Cynghori Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân Cymru (15) 01. Yn sgil tri ymgynghoriad yn ystod 2014-2015, cyflwynwyd Rheoliadau Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015 ar 1 Ebrill 2015. Bellach mae tri phrif gynllun

pensiwn ar gyfer diffoddwyr tân, sef Cynllun 1992, Cynllun 2007 a Chynllun 2015. Bydd y sefyllfa hon yn parhau tan 31 Mawrth 2022, pan fydd holl hawliau gwarchodedig aelodau'n dod i ben. (Mae gwarchod trosiannol yn seiliedig ar oedran aelodau ar 31 Mawrth 2012; bydd pob aelod gweithredol arall yn cael ei drosglwyddo i Gynllun 2015 yn awtomatig.) Rhoddodd HG fanylion rhai elfennau cynllunio allweddol Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015, sy'n cynnwys oedran ymddeol arferol o 60, ac mae'n seiliedig ar enillion gyrfa gyfan wedi'u hail-werthuso, yn hytrach na chynllun pensiwn sy'n seiliedig ar gyflog terfynol. Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, cynlluniwyd Cynllun Cymru ar sail ffactorau gweithredol ymddeol yn gynnar, gyda chyfradd gronni o un rhan o bob 61.4 o enillion pensiynadwy ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Mae'r ffigur hwn yn cymharu â chyfradd gronni o un rhan o bob 59.7 ar gyfer y cynllun a gyflwynwyd yn Lloegr, sy'n seiliedig ar ffactorau ymddeol yn gynnar wedi'u gohirio. Mae pob elfen arall y ddau gynllun yn union yr un peth. Cafodd cost ffactorau gweithredol ymddeol yn gynnar a'r gyfradd gronni ddiwygiedig eu dilysu gan Adran Actiwari’r Llywodraeth, er mwyn sicrhau bod y cynllun o fewn y terfyn cost a nodwyd gan Drysorlys ei Mawrhydi.

3. Aeth HG yn ei blaen i egluro bod gan Weinidogion Cymru gyfrifoldeb am y canllawiau actiwaraidd ar gyfer ffactorau Cynllun 2015, ar ôl iddynt ymgynghori ag Actiwari'r Cynllun, sef Adran Actiwari'r Llywodraeth. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi nifer o gylchlythyrau er mwyn darparu canllawiau ynglŷn â'r ffactorau actiwaraidd sydd i'w defnyddio ar gyfer y cynllun newydd, a bydd hi’n ariannu ac yn hwyluso, trwy Adran Actiwari'r Llywodraeth, gwerthusiadau o'r cynllun yn y dyfodol. Yn ogystal, mae Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am roi arian wrth gefn i'r awdurdodau tân ar gyfer y cynlluniau, trwy gyllid Trysorlys ei Mawrhydi.

4. Gwnaeth Llywodraeth Cymru hwyluso digwyddiad hyfforddiant, yn benodol ar Gynllun Cymru, ar gyfer gweinyddwyr y cynllun ar 22 Mehefin 2015, a gafodd groeso mawr. Cyflwynodd y digwyddiad gan Clair Alcock, y Gymdeithas Llywodraeth Leol. Gwnaeth PH sylwi ar ba mor ddefnyddiol oedd yr hyfforddiant, ac ar ba mor werthfawr ydoedd i'r tri gwasanaeth tân ac achub. Gofynnodd PH a oedd cyfle i gael cyswllt cyfatebol yng Nghymru. Dywedodd HG nad oedd capasiti o safbwynt llywodraeth ganolog i gyflawni'r rôl hon, a chan fod awdurdodau tân ac achub Cymru'n talu tanysgrifiad am y gwaith mae Clair yn ei wneud, yno byddai'n rhaid i awdurdodau tân ac achub ystyried a fyddai swyddogaeth arall yn ddefnyddiol. Cytunodd DD Gwnaeth MP gydnabod y bydd ymuno â chynllun pensiwn newydd yn cynnwys llawer o drefniadau newydd, rhai ohonynt yn gymhleth, a bydd yn rhaid i aelodau ddeall hynny. Gofynnodd MP a ellid cyflwyno cyflwyniad tebyg i'r Bwrdd. Dywedodd PH ei fod yn bwriadu rhannu sleidiau'r cyflwyniad, a gafwyd o'r digwyddiad hyfforddi, ar lefel Bwrdd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

CAM GWEITHREDU: Bydd PH yn rhannu sleidiau'r cyflwyniad. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud ymchwil i'r posibilrwydd o roi hyfforddiant penodol i Gymru i'r Bwrdd.

5. Eglurodd HG fod Clair wedi paratoi canllawiau ar gyfer aelodau'r cynllun yn Lloegr. Bydd Llywodraeth Cymru'n cysylltu â Clair er mwyn llunio fersiwn addasedig o’r canllawiau ar gyfer Cymru, yn ogystal â pharatoi cyfieithiad.

6. Gofynnodd GM a fyddai cyfrifiannell ar-lein ar gael ar gyfer aelodau yng Nghymru Dywedodd HG y byddai cyfrifiannell ar-lein yn rhoi amcangyfrif o'r ffigur yn unig, gan na fyddai'n ystyried llawer o'r ffactorau a fyddai'n effeithio ar y cyfrifiad. Felly, daethpwyd i'r casgliad y dylid cynghori unigolion i gysylltu â gweinyddwyr eu pensiwn er mwyn cael ffigur mwy cywir. Dywedodd LA fod cyfrifiannell ar-lein ar gael ar gyfer aelodau o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Ychwanegodd HG fod yr Adran Gymunedau a Llywodraeth Leol wedi creu'r cyfrifiannell ar-lein ar gyfer Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân yn Lloegr, ond wrth reswm, ni fyddai'r gyfrifiannell hon yn ystyried dyluniad y cynllun yng Nghymru o ran ffactorau ymddeoliad cynnar a'r gyfradd gronni. Er mwyn cyflwyno cyfrifiannell ar gyfer Cynllun Cymru, byddai'n rhaid i Lywodraeth Cymru ofyn i Adran Actiwari'r Llywodraeth greu un am bris. Dywedodd PS fod aelodau wedi dechrau dibynnu ar ddefnyddio'r cyfrifiannell ar-lein, gan mai dyna'r unig adnodd sydd wedi bod ar gael yn y blynyddoedd diweddar. Fodd bynnag, pe bai canllawiau ar gyfer aelodau, byddai hyn yn mynd i'r afael â nifer o bryderon.

**CAM GWEITHREDU:** Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud ymchwil i gost creu cyfrifiannell ar-lein ar gyfer Cynllun Cymru.

CAM GWEITHREDU: Bydd Llywodraeth Cymru yn trefnu copi drafft o'r canllawiau ar gyfer aelodau Cynllun Cymru cyn gynted ag y bo modd.

7. Ynglŷn â chyfraddau cyfrannu aelodau, eglurodd HG fod cyfraddau a haenau newydd wedi cael eu pennu ar gyfer Cynllun 2015. Fel rhan o'r broses o ddiwygio pensiynau gwasanaethau cyhoeddus, roedd gofyniad gan Drysorlys Ei Mawrhydi y dylai fod cyfartaledd o 13.2% ar gyfer cyfraddau cyfraniadau gweithwyr ar draws yr holl gynlluniau pensiwn diffoddwyr tân (1992, 2007 a 2015). Mae cyrraedd yr incwm hwn yn dibynnu'n drwm ar weithlu'r dyfodol/tâl pensiynadwy hyd at 2019. Bydd yn ofynnol i'r Bwrdd asesu a yw'r incwm yn cyrraedd y cyfartaledd blwyddyn ar ôl blwyddyn. Os yw'n debyg na fydd yr incwm yn cyrraedd 13.2%, wedyn bydd angen addasu cyfraddau cyfraniadau aelodau yn ôl yr angen. Dywedodd HG y byddai'n rhaid i Adran Actiwari'r Llywodraeth wneud y cyfrifiadau ar gyfer hyn, gan eu seilio ar y data sydd ar gael.

**CAM GWEITHREDU:** Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio amserlen gan Adran Actiwari'r Llywodraeth ar gyfer asesu'r incwm a hysbysu aelodau'r Bwrdd.

8. Lleisiodd LA bryderon gan fod Adroddiad Gwerthuso 2012 yn cymryd yn ganiataol y byddai nifer benodol o bobl yn ymddeol, ac nid oedd hyn wedi digwydd. Gofynnodd HJ a fyddai hyn yn golygu addasiad blynyddol i gyfraddau cyfrannu gweithwyr, neu addasiad pan fydd data gwerthusiad 2016 ar gael. Dywedodd PH y croesawir gwybodaeth gynnar ynglŷn â phryd y byddai'r gweithgarwch yn cael ei gynnal, er mwyn i'r timau ariannol gynnwys y data yn eu cynlluniau cyllidebu ar gyfer y flwyddyn nesaf. Gan fod cyfraddau cyfrannu gweithwyr yn cael eu pennu yn y rheoliadau, byddai unrhyw newidiadau i'r cyfraddau hyn yn golygu ymgynghoriad, ac felly byddai angen cyfnod o amser wrth i unrhyw newidiadau i'r cyfraddau gael eu gwneud.

**CAM GWEITHREDU:** Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud ymchwil i'r mater hwn a rhoi esboniad pellach i'r Bwrdd yn y cyfarfod nesaf.

**Eitem 3 yr Agenda– Cylch Gorchwyl Drafft ar gyfer Bwrdd Cynghori Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân Cymru**

9. Cyflwynodd MP Fwrdd Cynghori Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân Cymru, ac egluro bod trefniadau llywodraethu bellach yn ofynnol ar gyfer pob cynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus. Yn achos cynlluniau pensiwn diffoddwyr tân, mae hyn yn golygu y bydd yr awdurdod tân ac achub unigol yn sefydlu bwrdd pensiwn lleol i reoli'r cynllun, yn ogystal â sefydlu Bwrdd Cynghori Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân Cymru. Cadarnhaodd pob un o'r gwasanaethau tân ac achub ei fod wedi sefydlu bwrdd pensiwn lleol. Roedd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi cynnal ei gyfarfod cyntaf, a byddai Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cynnal eu cyfarfodydd yn fuan. Nodwyd bod aelodau Bwrdd Cynghori Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân wedi cael eu penodi gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus. Nododd PH fod dau gynrychiolydd o Undeb y Brigadau Tân yn bresennol, a gofyn pam roeddent yno. Eglurodd GM fod yr ysgrifennydd cyffredinol, Matt Wrack, wedi ysgrifennu at y gweinidog i ofyn am bedair sedd ar y Bwrdd, gan ei fod o'r farn bod yr undeb yn cynrychioli trwch helaeth y gweithlu. Gwnaeth y gweinidog wrthod y cais a chynnig dwy sedd yn lle pedair. Cadarnhaodd AH fod Undeb Diffoddwyr Tân Wrth Gefn yn fodlon ar un sedd yn unig.

10. Lleisiodd PH bryderon y gallai'r penderfyniad hwn gael effaith ar aelodaeth y byrddau pensiwn lleol. Dywedodd HG ei fod yn hanfodol yn ôl y rheoliadau penodi'r un nifer o bobl i gynrychioli gweithwyr ag sy'n cael eu penodi i gynrychioli cyflogwyr ar y byrddau pensiwn lleol; ond ar gyfer Bwrdd Cynghori'r Cynllun, maen prawf dymunol yn unig yw cael yr un gynrychiolaeth ar gyfer y ddau barti. Fodd bynnag, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried a fyddai'r anghydbwysedd yn achosi unrhyw broblemau o ran argymhellion gan y Bwrdd, ac yn adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf. Bydd angen diwygio'r Cylch Gorchwyl er mwyn adlewyrchu manylion yr aelodau. Gofynnodd PH a oedd gwrthdaro buddiannau, gan fod rhai aelodau o'r Bwrdd yn dderbynyddion y gwahanol gynlluniau pensiwn. Cadarnhaodd HG nad oedd y mater hwn yn gwrthdaro buddiannau. Awgrymodd PH y dylid cryfhau'r paragraff er mwyn nodi y dylai aelodau ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau cyn gynted ag y bo rhywbeth yn codi. Roedd aelodau o'r Bwrdd yn fodlon cymeradwyo'r Cylch Gorchwyl, ar yr amod y gwneir y newidiadau a nodwyd.

**CAM GWEITHREDU:** Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried a yw'r aelodaeth gyfredol yn creu anghydbwysedd yn y grŵp, ac yn adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf, ac yn diweddaru'r Cylch Gorchwyl.

**Eitem 5 yr Agenda– Rôl y Rheoleiddiwr Pensiynau**

11. Symudwyd eitem 5 yr agenda ymlaen. Eglurodd HG fod Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 wedi estyn gofynion y Rheoleiddiwr Pensiynau i gynnwys cynlluniau gwasanaethau cyhoeddus megis cynlluniau pensiwn diffoddwyr tân. Cyhoeddodd y Rheoleiddiwr Pensiynau god ymarfer generig ym mis Ebrill 2015. Gwnaeth HG gydnabod bod rhai problemau wedi codi wrth gofrestru'r cynllun, ond mae'r rhain bellach wedi cael eu datrys. Dywedodd HG wrth y Bwrdd fod Robert Plumb, y Rheoleiddiwr Pensiynau, wedi mynychu un o gyfarfodydd y bwrdd cysgodol

er mwyn rhoi cyflwyniad ar y gwaith o reoleiddio cynlluniau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus. Awgrymodd y dylid ei wahodd i gyfarfod bwrdd, pe bai aelodau'n cael hynny'n ddefnyddiol. Gofynnodd WE a fyddai'n codi ffi am ddod. Cadarnhaodd HG na fyddai'n codi ffi. Cytunodd DD y byddai hyn yn fuddiol ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol, ond bod y wybodaeth a rennir yn fuddiol.

12. Dywedodd MP fod y Rheoleiddiwr Pensiynau yn canolbwyntio ar gydymffurfiad a sicrhau bod y cynllun yn cael ei lywodraethu a'i weinyddu yn y ffordd gywir, gan gynnwys gwybodaeth a dealltwriaeth ei ymddiriedolwyr. Lleisiodd PH bryderon ynglŷn â throsiant uchel aelodau awdurdod lleol. Siaradodd PH am y cyflwyniad gan Robert Plumb, a chytunodd y byddai'n fuddiol cael rhywbeth tebyg yn y dyfodol; ond dywedodd hefyd y gallai gael effaith negyddol ar aelodau o'r Bwrdd oherwydd y lefel o wybodaeth y byddai'n rhaid iddynt ei deall. Awgrymodd WE y gallai aelodau elwa ar ddigwyddiadau hyfforddi sy'n cael eu cyflwyno gan Swyddfa Archwilio Cymru. Tynnodd MP sylw'r Bwrdd at y cyrsiau pytiog ar gael ar wefan y Rheoleiddiwr Pensiynau. Dywedodd PH fod Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn cynnal cyrsiau ar gyfer ei aelodau lleol sy'n cynnwys cwblhau nifer o fodiwlau mewn camau. Cynigiodd PH letya unrhyw hyfforddiant sy'n cael ei ddatblygu ar gyfer y Bwrdd. Daeth MP i'r casgliad y bydd cynyddu gwybodaeth yn cynorthwyo wrth redeg y cynllun yn y pendraw.

**CAM GWEITHREDU:** Bydd Llywodraeth Cymru yn dosbarthu'r ddolen i gyrsiau pytiog y Rheoleiddiwr Pensiynau.

**CAM GWEITHREDU:** Bydd PH yn dosbarthu manylion y cyrsiau mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn eu cynnal.

**CAM GWEITHREDU:** Bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn i'r Rheoleiddiwr Pensiynau a fyddai'n bosibl iddo ddod i gyfarfod bwrdd yn y dyfodol.

### Eitem 4 yr Agenda – Adroddiad Gwerthusiad Actiwaraidd o Gynlluniau Pensiwn Diffoddwyr Tân fel yr oeddent ar 31 Mawrth 2012

13. Gwnaeth MP wahodd HG i roi crynodeb o Fwrdd Cynghori Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân Cymru (15) 03 a'r adroddiadau cysylltiedig. Eglurodd HG fod y manylion a roddir yn yr Adroddiad Gwerthuso Actiwaraidd fel yr oeddent ar 31 Mawrth 2012. Mae'r adroddiad yn nodi cyfraddau cyfrannu cyflogwyr ar gyfer y cynllun a'r terfyn cost ar gyfer cyflogwyr. Bydd y gwerthusiad nesaf ar 31 Mawrth 2016 yn llywio'r cyfraddau cyfrannu ar draws y cynlluniau o 1 Ebrill 2019. Gan mai hwn oedd y gwerthusiad cyntaf i gael ei gynnal, defnyddir Adroddiad Gwerthuso 2012 yn waelodlin. Ni chafodd canlyniad Gwerthusiad 2012 ei gyhoeddi tan 6 Mawrth 2015, a bydd y cyfraddau newydd yn berthnasol o 1 Ebrill 2015. Dywedodd HG y byddai'r gwerthusiad nesaf yn dechrau ym mis Mawrth 2016, ac y byddai Llywodraeth Cymru yn ceisio amcangyfrif gan Adran Actiwari'r Llywodraeth ynglŷn â phan fydd y canlyniad ar gael ar gyfer awdurdodau tân ac achub.

**CAM GWEITHREDU:** Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud ymchwil i ddarganfod pan fydd canlyniadau gwerthusiad 2016 ar gael.

14. Dywedodd HG wrth y Bwrdd y bydd Adran Actiwari'r Llywodraeth yn paratoi Adroddiad Gwerth Blaenorol y Terfyn Cost, yn seiliedig ar rwymedigaethau'r cynlluniau ar gyfer aelodau sy'n weithredol ar 31 Mawrth 2015. Bydd manylebau data'n cael eu llunio'n fuan â'r bwriad o geisio gwybodaeth gan awdurdodau tân ac achub ym mis Awst. Disgwylir adroddiad terfynol erbyn mis Hydref 2015, a defnyddir gwybodaeth yn yr adroddiad hwn yn Adroddiad Gwerthuso Actiwaraidd 2016.

15. Gwnaeth PH sylwi ar baragraff 1.5 Adroddiad Cyngor ar Ragdybiaethau mewn perthynas â'r gostyngiad mawr yn y nifer o ymddeoliadau rhagdybiedig oherwydd salwch, a'r gostyngiad yn y ganran dybiedig o bensiynwyr sydd â phriod neu berson dibynnol arall sydd â'r hawl i bensiwn ar ôl iddynt farw. Roedd PH yn pryderu y bydd cynnydd mewn rhai meysydd oherwydd amrywiaeth eang o ffactorau. Aeth PH yn ei flaen i ddweud bod rhai aelodau wedi priodi nifer o weithiau, sy'n gwneud pethau'n fwy cymhleth. Cytunodd GM fod y ddwy ragdybiaeth hon yn ansicr, ac y bydd rhaid eu monitro'n agos. Gwnaeth MP gynghori y byddai'n rhaid i fyrddau pensiwn lleol darparu'r wybodaeth berthnasol er mwyn i'r Bwrdd fonitro unrhyw newidiadau.

16. Wedyn cyfeiriodd PH at baragraff 9.13 yr adroddiad, a oedd yn gysylltiedig â'r lefel o godiadau cyflog oherwydd dyrchafiadau. Oherwydd bod y cynllun pensiwn yn seiliedig ar enillion cyfartaledd gyrfa wedi'u hailwerthuso, roedd PH yn teimlo y bydd unigolion yn ceisio dyrchafiad cynnar er mwyn gwneud iawn am y newid hwn i sail y pensiwn. Awgrymodd PH fod hon yn agwedd arall sydd angen ei monitro. Gofynnodd MP a yw'r gwasanaethau tân ac achub wedi hysbysu aelodau am y trefniadau newydd sy'n seiliedig ar enillion cyfartaledd gyrfa wedi'u hailwerthuso. Dywedodd PH y dylai gweinyddwyr cynlluniau unigol wneud hynny. Awgrymodd MP y dylid cynnwys y mater mewn unrhyw brosesau ymsefydlu a gynigir i aelodau unigol y cynllun.

17. Gwnaeth LA ailadrodd y goblygiadau ar gyfer Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. Roedd y rhan fwyaf o unigolion yn aelodau o gynlluniau 1992 a 2007, ac o'r herwydd roeddent ar y cyfraddau uwch. Gan fod y gyllideb wedi cael ei phennu cyn derbyn yr Adroddiad Rhagdybiaethau, roedd wedi achosi llawer o broblemau. Disgwylir y bydd y sail hon yn berthnasol ar gyfer y tair blynedd nesaf.

18. Dywedodd DD y byddai'n rhaid i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ystyried yr effaith ar ei awdurdod tân.

**Eitem 6 yr Agenda – Unrhyw Faterion Eraill**

19. Trafodwyd nifer o feysydd yn yr eitem agenda hon. Rhoddodd HG ddiweddariad ar benderfyniad yr Ombwdsmon Pensiynau ynglŷn ag achos Milne yn erbyn Adran Actiwari'r Llywodraeth. Roedd yr achos yn gysylltiedig â diffoddwr tân o'r Alban a oedd wedi derbyn cyfandaliad pensiwn anghywir, gan fod y ffactorau cymudo, yn seiliedig ar ganllawiau Adran Actiwari'r Llywodraeth, yn anghywir. Mae'r Ombwdsman Pensiynau wedi gwneud ei benderfyniad ac wedi ategu'r dyfarniad o gamweinyddiaeth yn erbyn Adran Actiwari'r Llywodraeth. Mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio ymatebion cychwynnol gan y tri gwasanaeth tân ac achub er mwyn darganfod y nifer o ddiffoddwyr tân sydd wedi cael eu heffeithio. Gofynnodd WE a

fydd canlyniad yr achos hwn yn effeithio ar y gyllideb.  Dywedodd GM na ddylid disgwyl i gyflogwyr dalu'r bil.  Dywedodd HG fod Llywodraeth Cymru wrthi'n trafod goblygiadau'r achos â Thrysorlys Ei Mawrhydi.  Dywedodd HG wrth y Bwrdd y bydd Llywodraeth Cymru yn darparu  diweddariad ar gyfer gwasanaethau tân ac achub cyn gynted ag y bo modd.

20. Cyfeiriodd HG at y data optio allan y mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn eu casglu gan y tri awdurdod tân ac achub ers mis Ebrill 2012.  Mae'r data'n rhoi ciplun o'r ffigurau a'r rhesymau y mae pobl yn gadael y cynlluniau pensiwn.  Gofynnodd HG i aelodau am eu barn ar barhau i gasglu data y gellid eu cyflwyno i'r Bwrdd. Dywedodd AH fod gan ddiffoddwyr tân wrth gefn fywydau y tu allan i'r gwasanaeth tân ac achub, ac o'r herwydd gallant fod â'u cynlluniau pensiwn eu hunain.  Bydd diffoddwyr tân newydd yn cael eu cofrestru ar Gynllun 2015 yn awtomatig, oni bai eu bod yn dewis optio allan.  Dywedodd PH y gallai'r cynnydd mewn Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod effeithio ar y nifer o bobl sy'n optio allan. Dywedodd GM fod Undeb y Brigadau Tân yn cynghori pobl i beidio â gadael y cynllun pensiwn, gan na fyddant yn gallu ailymuno â'r cynllun maes o law.  Cytunodd DD y byddai'r gwaith o gasglu data'n ddefnyddiol, yn enwedig pe bai'n cael ei gynnal am gyfnod arall o dair blynedd.  Gofynnodd PH a oedd yr un gwaith o gasglu data'n cael ei gynnal gan gynlluniau gwasanaethau cyhoeddus eraill, ac awgrymu y gallai hynny roi syniad o sut mae cyllid a hyfywedd cynlluniau pensiwn diffoddwyr tân yn cymharu.

**CAM GWEITHREDU:** Bydd Llywodraeth Cymru yn cysylltu â swyddogion cynlluniau gwasanaethau cyhoeddus eraill, ac adrodd ar y canfyddiadau gerbron Bwrdd Cynghori'r Cynllun.

21. Eglurodd HG fod nifer o anghysondebau drafftio wedi cael eu darganfod o fewn y manylion – a oedd wedi cael eu nodi yn ystod y broses gyfieithu – wrth i reoliadau'r cynllun gael eu cyflwyno.  Mae'r diwygiadau hyn yn fach iawn, ac nid ydynt yn effeithio ar gyd-destun y rheoliadau – felly nid oes angen ymgynghori am y newidiadau.

22. Mewn perthynas â diwygiadau i'r cynlluniau pensiwn blaenorol, dywedodd HG fod mater heb ei ddatrys hyd yn hyn, ynglŷn â Chynllun 1992. Yn 2011, gwnaeth Llywodraeth Cymru ymgynghori am nifer o ddiwygiadau i'r cynllun, gan gynnwys cyflwyno seibiant cyfraniadau ar gyfer diffoddwyr tân sydd wedi cyrraedd 48 mlwydd oed, ac wedi cwblhau 30 mlynedd o wasanaeth. Ni fyddent yn gorfod talu rhagor o gyfraniadau.  Arweiniodd hyn at yr angen i fynd i'r afael â nifer o faterion cyfreithiol nad ydynt wedi'u datrys hyd yn hyn. Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi diweddariad pan fydd un ar gael.   Dywedodd PH fod Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru wedi derbyn achos mewn perthynas â'r opsiwn o seibiant cyfraniadau, sydd wedi cael ei gyfeirio at yr Ombwdsmon Pensiynau. Mae'r Ombwdsmon wedi penderfynu peidio â mynd yn ei flaen nes bod yr achos llys drosodd.  Mae llawer o ddiffoddwyr tân wedi gofyn pan fydd yr achos yn cael ei ddatrys a phwy fydd yn gyfrifol am dalu.

**CAM GWEITHREDU:** Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi diweddariad cyn gynted ag y bo modd.

23. Wedyn gwnaeth HG sylw ar Gynllun Pensiwn Addasedig y System ar Ddyletswydd yn ôl Galw, a chydnabod y baich a roddwyd ar wasanaethau tân ac achub yn y flwyddyn ariannol hon wrth ymgymryd â’r gwaith o gyflwyno'r cynllun newydd, a'r angen i gyfeirio'n ôl nifer o flynyddoedd ar gyfer y cynllun hwn. Gofynnodd LA a fyddai Llywodraeth Cymru yn talu'r gost. Eglurodd HG y byddai'r costau'n cael eu hariannu trwy Gronfa Pensiynau Diffoddwyr Tân, ac y byddai Llywodraeth Cymru yn darparu arian wrth gefn pe bai angen. Hoffai HG, fodd bynnag, geisio eglurdeb ar y costau sy'n gysylltiedig â chyfnodau o waith yn y gorffennol, gan fod y cynllun yn mynd yn ôl i 2000. Dywedodd GM fod Undeb y Brigadau Tân yn derbyn llawer o ymholiadau gan aelodau y System ar Ddyletswydd yn ôl Galw. Dywedodd PH fod Awdurdod Tân ac Achub De Cymru yn gobeithio nodi'r rhai sy'n gymwys yn ystod mis Awst. Siaradodd DD am gapasiti yr awdurdodau tân ac achub a disgwyliadau aelodau, gan ddweud ei bod hi o dan yr argraff y byddai'r arian yn dod o'r cyfrif pensiynau – ond y byddai'n croesawu eglurder.

**CAM GWEITHREDU:**Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio eglurder ar lifoedd cyllid.

24. Dywedodd HG fod Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad â Clair Alcock er mwyn cynhyrchu canllawiau sy’n benodol ar gyfer gweinyddwyr Cymru. Bydd y canllawiau'n cael eu cyfieithu a'u dosbarthu maes o law. Gofynnodd LA a allai Clair gynhyrchu templedi generig er mwyn i fyrddau pensiwn lleol eu defnyddio ar gyfer eitemau agenda. Dywedodd HJ fod Clair wedi dosbarthu nifer o ddogfennau yn gynharach ar y dydd hwnnw.

25. Gwnaeth MP wahodd unrhyw faterion eraill gan y Bwrdd. Awgrymodd DD y dylid rhannu gwybodaeth ynglŷn ag achosion lle y defnyddir disgresiwn lleol, er mwyn sicrhau dilyniant, neu i fod yn ymwybodol o'r llwybrau gwahanol a’r rhesymau pam. Cytunodd MP y byddai'n ddefnyddiol pe bai'r Bwrdd yn rhannu'r wybodaeth hon.

**Eitem 7 yr Agenda – Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

26. Eglurodd MP y bydd y Bwrdd yn cwrdd deirgwaith y flwyddyn. Gofynnodd MP am farn aelodau ar leoliadau’r cyfarfodydd. Awgrymodd GM na fyddai Llandrindod yn hawdd ei chyrraedd ar gyfer Sean Starbuck, ail aelod Undeb y Brigadau Tân, gan ei fod yn byw yn Llundain. Roedd pob aelod arall, fodd bynnag, yn fodlon i gyfarfodydd eraill gael eu cynnal yn Llandrindod. Awgrymodd MP y dylai'r cyfarfod nesaf gael ei gynnal ym mis Hydref/Tachwedd er mwyn iddo gyd-fynd ag Adroddiad Gwerth Blaenorol y Terfyn Cost Adran Actiwari’r Llywodraeth. Cytunodd y Bwrdd â'r agwedd hon.

**CAM GWEITHREDU:**Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio argaeledd aelodau a chadarnhau dyddiad y cyfarfod nesaf.